# Y ‘Kardomah Gang’



# Dylan Thomas







- Bardd oedd Dylan Thomas
- Roedd yn ysgrifennu am ei fywyd, ei ffrindiau ac am Gymru.
- Mae rhai cerddi’n ddifrifol a rhai’n ddoniol.
- Cafodd ei eni ym 1914 ac roedd ei gartref cyntaf yn Abertawe, De Cymru.

# Y ‘Kardomah Gang’




Roedd Dylan Thomas yn aelod o’r ‘Kardomah Gang’.

Grŵp o ffrindiau oedd y Kardomah Gang - artistiaid, cerddorion, beirdd ac awduron a fyddai’n cwrdd yn ‘Kardomah Café’ ar Stryd y Castell, Abertawe yn y 1930au.

Yno byddent yn yfed coffi a thrafod pob math o bynciau gan gynnwys crefydd, marwolaeth, Einstein a Picasso.

# Y 'Kardomah Gang'

Pan gafodd Abertawe ei bomio'n drwm ym mis Chwefror 1941, cafodd Stryd y Castell ei tharo'n wael a cafodd Kardomah Café ei ddinistrio.

Ysgrifennodd Dylan Thomas am y dinistr yn ei ddrama radio , *Return Journey to Swansea* ac mae'n disgrifio sut lloriwyd y caffi.



*Stryd y Castell, gan edrych tua'r gogledd, ar ôl y bomio.*

I weld rhagor o luniau o Abertawe ar ôl y bomio cliciwch [fan hyn]

# Kardomah Café

- Ailagorodd y caffi ar ôl y rhyfel mewn lleoliad newydd ar Stryd Portland, yn agos i'r man lle roedd y caffi gwreiddiol.
- Mae'r caffi'n dal yno heddiw.
- Cafodd golygfa o *Doctor Who* ei ffilmio yn y caffi yn 2009 pan oedd David Tennant yn chwarae rhan y Doctor.




Gwyliwch y clip fan hyn

# Gweithgaredd Y 'Kardomah Gang'

- Pa bobl enwog fyddech chi'n eu gwahodd i'r caffi am ddiod a sgwrs gyda chi?

- Dewiswch 5 person i'w gwahodd. Meddyliwch am resymau pam byddech yn eu dewis.

- Am beth fyddech chi'n siarad?

